

Agenda – Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom	Robert Donovan
Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Mawrth 2021	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6565
Amser: 09.15	SeneddESS@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod preifat (09.15–09.45)

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
(09.45)

2 Papurau i'w nodi
(09.45)

2.1 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

(Tudalennau 1 – 2)

Dogfennau atodol:

EIS(5)–8–21 – Papur i'w nodi

2.2 Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

(Tudalennau 3 – 4)

Dogfennau atodol:

EIS(5)–8–21 – Papur i'w nodi



2.3 Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru a Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

(Tudalennau 5 – 15)

Dogfennau atodol:

EIS(5)–8–21 – Papur i'w nodi

EIS(5)–8–21 – Atodiad i'w nodi – 1 (Saesneg yn unig)

EIS(5)–8–21 – Atodiad i'w nodi – 2 (Saesneg yn unig)

3 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidogion

(09.45–10.45)

(Tudalennau 16 – 50)

Ken Skates AS Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Simon Jones, Cyfarwyddwr Seilwaith yr Economi

Sioned Evans, Cyfarwyddwr Busnes a Rhanbarthau

Huw Morris, Cyfarwyddwr Grwp SAUDGO

Russell Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr Masnach a Buddsoddi

Dogfennau atodol:

EIS(5)–8–21 – Papur Briffio

Egwyl (10.45–10.55)

4 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidogion

(10.55–11.55)

Ken Skates AS Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Simon Jones, Cyfarwyddwr Seilwaith yr Economi

Sioned Evans, Cyfarwyddwr Busnes a Rhanbarthau

Huw Morris, Cyfarwyddwr Grwp SAUDGO

Russell Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr Masnach a Buddsoddi

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.55)

6 Preifat

(11.55–12.15)

Ystyried tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

Ein cyf: DC/JJ/00529/21

Russell George AS - Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau,
Senedd Cymru

SeneddESS@senedd.cymru

03 Mawrth 2021

Annwyl Russell,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i roi gwybod i chi y bydd Cyfarfod Gweinidogol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC) ar y Sector Gwaith Cynhwysiant Digidol yn cael ei gynnal yr wythnos hon, sef dydd Gwener 5 Mawrth. Mae'r Aelod-weinyddiaethau wedi cytuno i gynnal cyfarfod rhithiol, dan arweiniad Ynys Manaw. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynhwysiant digidol, fi fydd yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Mae'r cyfarfod yn gyfle i Aelod-weinyddiaethau'r BIC drafod cynhwysiant digidol, sy'n gwestiwn allweddol o ran cyfiawnder cymdeithasol a chydaddoldeb, a'r gweithgarwch sy'n mynd rhagddo ar draws y gweinyddiaethau i sicrhau bod pobl yn gallu ymgysylltu â'r newidiadau technolegol sy'n digwydd mor gyflym yn ein cymdeithas, a manteisio arnynt. Yn ogystal, bydd yn gyfle i drafod effaith y pandemig ar agenda cynhwysiant digidol a'r rôl hollbwysig y mae'n rhaid inni i gyd ei chwarae er mwyn helpu dinasyddion i feithrin hyder digidol drwy gyfuniad o gymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol a mynediad.

Bydd y cyfarfod yn rhoi cyfle i Weinidogion ystyried gwaith ehangach sy'n digwydd ar draws y sectorau mewn perthynas â diogelwch ar-lein, gan ddod i gytundeb ar yr un pryd ar y Cynllun Gwaith i'r dyfodol.

Bydd y cyngor yn cytuno ar hysbysiad yn y cyfarfod, a byddaf yn rhoi'r manylion cyhoeddi a chanlyniad y cyfarfod i'r Pwyllgor maes o law.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ysgrifennu mewn termau tebyg at gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS; y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, John Griffiths AS; y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Lynne Neagle AS; a Phwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Bethan Sayed AS.

Yn gywir,



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government



Ein cyf/Our ref :

Russell George AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

3 Mawrth 2021

Annwyl Russell,

MAES AWYR CAERDYDD

Ysgrifennaf atoch i rannu'r Datganiad Ysgrifenedig â chi y byddaf yn ei gyhoeddi cyn hir heddiw ynghylch cymorth i Faes Awyr Caerdydd yn y dyfodol.

Mae COVID-19 wedi cael effaith ar fywydau pob un ohonom na ellid bod wedi'i rhagweld, yn lleol ac o gwmpas y byd. Mae'r pandemig yn parhau i amharu'n fawr ar bob agwedd ar ein bywydau a'r economi, ac mae'r diwydiant teithio ymhlith y rhai sydd wedi teimlo'r ergyd fwyaf, wrth i fwy neu lai holl hediadau teithwyr gael eu hatal, meysydd awyr gwag a fflydoedd cyfan yn aros ar y ddaear.

Yn ogystal â'r pecyn cymorth newydd rydym eisoes wedi'i gynnig i gefnogi unigolion a busnesau ledled Cymru, heddiw, byddaf yn cyflwyno pecyn ariannol i ddarparu cymorth penodol i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf. yn y tymor canol, yn erbyn cynllun achub ac adfer pum mlynedd. Mae hyn yn sicrhau y byddwn yn adennill y swm mwyaf posibl o'n buddsoddiad benthyciad ac yn sicrhau bod y maes awyr yn gynaliadwy wrth gynnig yr opsiwn isaf o ran cost gydol oes. Dyma'r ffordd orau ymlaen yn nhelerau masnachol/buddsoddwr y farchnad yn unig, gan gydnabod y risgiau a'r ansicrwydd o fewn y diwydiant na ellir eu hosgoi yn sgil yr argyfwng byd-eang.

Bydd y pecyn cymorth nid yn unig yn sicrhau dyfodol miloedd o swyddi, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, ond bydd hefyd yn parhau i sicrhau bod gan Gymru le ar y llwyfan byd-eang – gan ddiogelu ein maes awyr rhyngwladol sy'n rhan hanfodol o'n seilwaith trafniadaeth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Caiff y cynllun achub ac adfer ei reoli yn ôl ei berfformiad yn rheolaidd er mwyn gwerthuso a diogelu ein buddsoddiad parhaus. Yn ogystal â hynny, mae fy swyddogion hefyd yn y broses o adolygu llywodraethiant Maes Awyr Caerdydd a chryfhau'r rôl y bydd Holdco yn ei chwarae yn y dyfodol. Rhoddaf wybod i chi beth fydd canlyniad y trafodaethau hynny maes o law.

Caiff manylion llawn y pecyn cymorth ariannol eu nodi yn y Datganiad atodedig, a byddaf yn bresennol yng nghyfarfod Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 10 Mawrth.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken Skates', with a stylized flourish at the end.

Ken Skates AS/MS

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

Russell George AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

3 Mawrth 2021

Annwyl Russell,

Rydym yn cyfeirio at eich llythyr dyddiedig 15 Chwefror, yn dilyn materion a gododd yn ystod ein hymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 3 Chwefror.

Rydym yn falch o ymateb i ymholiadau'r Pwyllgor fel a ganlyn:

Cefnogaeth gymharol ar draws y gwledydd

Yn gyntaf, mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at dderbyn y tabl cymharu a gafodd ei addo sy'n nodi lefelau'r cymorth a gynigir i fusnesau ar draws y gwahanol wledydd. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi argymhell darparu'r wybodaeth hon yn ei adroddiad craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/2022. Rydym yn gwerthfawrogi y bydd angen i'r naratif ar gyfer y tabl hwnnw adlewyrchu ac egluro darlun cymhleth, gydag amrywiadau mewn meini prawf cymhwysedd a throthwyon. Fodd bynnag, mae'n bwysig i fusnesau a'r cyhoedd yng Nghymru ddeall yn llawn yr hyn sy'n sail i hyder Llywodraeth Cymru ei bod yn cynnig lefel uwch o gymorth busnes nag a welir yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu gwaith monitro ac asesu parhaus Llywodraeth Cymru o effeithiolrwydd cronol yr amrywiaeth o becynnau cymorth, gan gynnwys effaith meini prawf cymhwysedd y Gronfa Cadernid Economaidd ar fusnesau llai. Rydym hefyd yn croesawu parodrwydd i ddysgu o fentrau mewn rhannau eraill o'r DU, megis Cynllun Cymorth diweddaraf Gogledd Iwerddon ar gyfer pobl sydd newydd fynd yn Hunangyflogedig, wrth fireinio pecyn cymorth Cymru. Edrychwn ymlaen at y cyhoeddiadau pellach a nodwyd ar gyfer cymorth busnes o fewn amlen gyllideb y flwyddyn ariannol gyfredol

Rydym yn croesawu sylw'r Pwyllgor ar gymorth ehangach y DU sydd bob amser yn rhoi cyfle i fyfyrion. Fel rhan o'r broses o ystyried y pecyn cymorth diweddaraf cyn diwedd y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn ymateb.

Tudalen y pecyn 5

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn ymateb.

flwyddyn ariannol, rydym wedi adolygu'r amrywiaeth o gynlluniau cymorth sydd ar gael yng Nghymru yn erbyn gwybodaeth newydd ledled y DU o ran y cwantwm a'r pecyn cymorth. Mae hyn yn cynnwys y cynllun Cymorth Hunangyflogedig yng Ngogledd Iwerddon ac mae'n werth nodi ein bod ni yng Nghymru wedi mynd ati, yn ystod haf 2020, i gyflwyno'r grant cymorth Dechrau Busnes gwerth £5 miliwn ac yna wedi ymrwymo bron i £50 miliwn i'r grantiau dewisol a ddyrennir gan Awdurdodau Lleol ar gyfer y busnesau llai hynny sydd, er enghraifft, yn newydd neu nad ydynt wedi'u cofrestru i dalu ardrethi annomestig.

Mae cymhariaeth uniongyrchol ar draws gwledydd cartref y DU yn heriol oherwydd amrywiadau i'r telerau a'r amodau a'r cyfnodau y mae gwahanol gynlluniau grant yn eu cwmpasu. Fodd bynnag, ar gyfer y cyfnod 20 Rhagfyr 2020 hyd at 1 Mawrth 2021 mae'r gymhariaeth isod yn bosibl. Hoffem bwysleisio ein bod yn awgrymu rhywfaint o bwyll wrth ddefnyddio'r tabl hwn oherwydd y ffactorau canlynol:

- Mae cymhwysedd a lefel cynlluniau yn y DU yn ehangach yn aml iawn yn ddewisol ac ar wahanol lefelau am gyfnodau gwahanol. Ar y naill ochr a'r llall o'r pwyllgor, gwelwyd llai o gymorth treigl yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Mae'n amlwg nad ydym yn rheoli cynlluniau mewn meysydd eraill, fel y trafodwyd mae gan Bwyllgor Lloegr bellach, er enghraifft, ddau gynllun cymorth ar waith, grant bloc a chynllun treigl 42 diwrnod heb amserlen eglur – mae'r ddau wedi'u cynnwys yn y tabl.

Tabl Cymharu Grantiau Gwledydd Cartref y DU – 20 Rhagfyr 2020 – 1 Mawrth 2021

Nodwch fod y tabl hwn yn cynnwys y cafeatau canlynol;

- Mae cymariaethau'n seiliedig ar ddata sy'n hysbys ar adeg drafftio yn unig ac maen nhw'n debygol iawn o newid.
- Mae llawer o'r cynlluniau'n ddewisol felly maen nhw'n rhagdybio cymhwysedd a mynediad ac nid oes unrhyw gyfeirio at gyfraddau cymeradwyo na cheisiadau.
- Mae ystadegau, cymhwysedd, dyddiadau a chyfraddau yn newid yn rheolaidd. Er enghraifft, mae Gogledd Iwerddon wedi cyhoeddi 10 cynllun newydd eleni ac mae ganddynt gyfanswm o 30 o gynlluniau sydd bellach ar gau i ymgeiswyr newydd ond mae'r data yn parhau ar-lein.

Cyfnod 20 Rhagfyr i 1 Mawrth	Gwerth ardrethol (GA) eiddo busnes £15,000 a llai	GA £15-£50,000	GA £50-£500,000 (Busnesau Bach a Chanolig yn unig)
Lloegr (2 gynllun)	£6,000	£9,000	£13,500
Manwerthu Gogledd Iwerddon (hyd at 5 Mawrth)	£8000	£12,000	£16000
Lletygarwch Gogledd Iwerddon	£8000	£12000	£30000
Manwerthu yr Alban	£10,000	£10,000	£15,000
Lletygarwch yr Alban	£10,000	£10,000	£32,000
Cymru - Pob Busnes	£6,000 - £10,000	£10,000	£10,000
Y Gronfa Cadernid Economaidd - Cymru 60% neu fwy o effaith ar drosiant negyddol ar	£6,000 (4 cyflogai)	£15,000 (10 cyflogai)	Ar gyfer £100,000 byddai angen costau dros y cyfnod o

gyfer Lletygarwch Hamdden a Thwristiaeth a'r gadwyn gyflenwi yn unig (busnes £10,000). Grant sy'n gysylltiedig â chostau cyflogaeth a gweithredu			ddau fis – ymyriad tebygol o £35,000.
Uchafswm Cymru*	£16,000	£25,000	£110,000 / £45,000

*** Nid yw'n cynnwys cronfa sector newydd Cronfa Cadernid Economaidd Cymru gwerth £30 miliwn i Fusnesau Bach a Chanolig ar gyfer lletygarwch, hamdden a thwristiaeth (HLT) a busnesau cysylltiedig y gadwyn gyflenwi a fyddai'n gweld cwmni gyda 10 cyflogai yn cael hyd at £15,000 yn ychwanegol ym mis Mawrth.**

Mae'r tabl yn dangos, o'u cyfuno, bod grantiau cysylltiedig yr NDR a grantiau'r Gronfa Cadernid Economaidd yng Nghymru yn golygu bod gwerth y pecyn cymorth ar gyfer y grŵp o fusnesau yr effeithiwyd arnynt fwyaf (HLT) yn fwy na'r hyn sydd ar gael mewn rhannau eraill o'r DU a hefyd i'r mwyafrif o fusnesau llai yn y sector Manwerthu Dianghenraid.

Cwmpas y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau

Dywedwyd wrthym y byddai'r 'cohort uchaf' o 67,000 o fusnesau yn gymwys i gael y £200 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd yng nghylch diweddaraf y gronfa, ond eich bod 'yn ôl pob tebyg' yn disgwyl i nifer yr hawl wyr fod yn is, ac y byddai'r gwarged disgwyliedig yn cael ei ddefnyddio 'yn y camau nesaf'. A allwch ymhelaethu ar y rhesymau pam rydych yn disgwyl lefel is o hawliadau?

Mae'r 67,000 (o fusnesau) yn seiliedig ar amcangyfrif o eiddo busnes cymwys fel y ceir o'r gronfa ddata ar ardrethi annomestig ar draws pob sector.

Nid yw cynlluniau grant blaenorol sy'n gysylltiedig ag ardrethi annomestig wedi'u targedu'n benodol tuag at sectorau Manwerthu Dianghenraid, Lletygarwch, Hamdden a Thwristiaeth (NERHLT). O'r herwydd, gwnaed amcangyfrif o nifer yr eiddo NERHLT cymwys ac felly mae'r pecyn yn seiliedig ar yr uchafswm a allai fod yn gymwys. Yn ogystal, ac mewn ymateb i wersi a ddysgwyd o'r cam cyntaf, ar gyfer y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau, roedd yn ofynnol i fusnesau gofrestru eu manylion gydag awdurdodau lleol ar gyfer y grant cysylltiedig ag ardrethi annomestig – roedd hyn yn golygu bod y gwasanaeth hefyd yn cael ei arwain gan y galw.

Hefyd, cafodd cwmnïau cadwyn gyflenwi eu cynnwys yn yr amcangyfrifon ar y sail y byddai rhybudd lefel 4 wedi effeithio arnynt yn faterol ond heb eu cau. Un rhan o'r meini prawf ar gyfer derbyn grant oedd datgan bod y cyfyngiadau amrywiol a osodwyd yn ystod mis Rhagfyr wedi cael effaith negyddol (gostyngiad o 40% neu fwy) ar lefelau eu trosiant. Ni fyddai rhai busnesau sy'n meddiannu eiddo cymwys wedi cael eu heffeithio'n andwyol i'r graddau hyn, felly roedd disgwyl i lefel yr hawliadau fod yn is nag uchafswm nifer yr eiddo.

Nid oedd yn bosibl asesu i ba raddau y byddai lefel wirioneddol y galw yn is nag uchafswm nifer yr eiddo cymwys ymlaen llaw o ystyried natur ac effaith esblygol y cyfyngiadau ar fathau penodol o fusnesau. Amcangyfrifwn y bydd lefel gyfartalog y gefnogaeth ar gyfer pob cylch cymorth (Rhagfyr-Ionawr a Chwefror-Mawrth) yn gostwng yn agos i 40,000 eiddo ym mhob cylch.

Cronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau - Grant Dewisol Lleol

Trafodwyd pa mor hanfodol yw'r polisi yng nghyd-destun dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â chymorth busnes, sy'n ceisio cyfeirio cyllid fel y gellir arbed cymaint o swyddi â phosibl 'yn gyffredinol'. Croesewir y cyllid dewisol i awdurdodau lleol i lenwi unrhyw fylchau mewn cymorth i rai busnesau llai a fyddai'n dod i'r amlwg o ganlyniad. Fodd bynnag, mae Aelodau'n dal i fod yn ymwybodol o'r ffaith bod llawer o fusnesau ar ymylon cymhwysedd, yn enwedig unig fasnachwyr a microfusnesau nad ydynt yn bodloni meini prawf y cynllun Talu Wrth Ennill, TAW, eiddo na meini prawf eraill ar gyfer y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau. Neu mae eu busnesau'n cael eu dosbarthu yn y fath fodd fel eu bod wedi ei chael yn anodd cael gafael ar gymorth.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu adolygiad gan Lywodraeth Cymru o'r canllawiau dewisol i awdurdodau lleol, a fyddai, yn seiliedig ar waith achos yr Aelodau, yn ymddangos fel eu bod yn fwy cyfyngol erbyn hyn. Er bod archwilio ac atal twyll yn ystyriaethau pwysig, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Gweinidog ymhelaethu ynghylch pa mor ddilys yw'r lefel honno o ddisgresiwn, a pha mor wrth-risg yw awdurdodau lleol wrth arfer y disgresiwn hwnnw. Mae'r Aelodau'n gobeithio hefyd bod pob opsiwn yn cael ei archwilio fel y gall unig fasnachwyr a microfusnesau mwy newydd ddarparu tystiolaeth o'u statws masnachu a'u cymhwysedd i gael cyllid dewisol i awdurdodau lleol.

Ers dechrau'r pandemig, mae awdurdodau lleol wedi gweithio'n ddiflino ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru er mwyn darparu grantiau cymorth brys i fusnesau. Drwy gydol y cyfnod, mae'r canllawiau a luniwyd i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r gwahanol gynlluniau wedi'u datblygu ar y cyd ac ochr yn ochr ag awdurdodau lleol gyda mewnbwn a gwaith cydgysylltu amhrisiadwy gan CLILC.

Fel y cyfeiriad ei enw, nod y Grant Dewisol yn wir yw bod yn ddewisol ac mae awdurdodau lleol wedi cael cymorth gydol y broses i ddehongli egwyddorion y canllawiau ac i ddefnyddio eu disgresiwn mewn achosion sydd weithiau'n gymhleth iawn ac yn eithaf dadleuol. Bwriad y polisi o'r dechrau oedd darparu cymorth lle bynnag y bo modd i fusnesau dilys a chymwys, gan ddefnyddio'r gronfa ddewisol i fynd i'r afael â bylchau mewn cynlluniau cymorth ehangach fel y cynllun cymorth incwm i'r hunangyflogedig (SEISS) a llawer o'r enghreifftiau y mae'r pwyllgor wedi rhoi sylwadau arnynt.

Mewn achosion lle mae angen rhagor o wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi achos ymgeisydd, mae awdurdodau lleol wedi mynd ati'n ddiwyd i ofyn amdano a'i adolygu er mwyn helpu i lywio eu prosesau o wneud penderfyniadau. Rydym hefyd yn parhau i

adolygu canllawiau a meini prawf cymhwysedd gan ystyried adborth gan awdurdodau lleol a grwpiau rhanddeiliaid fel y Ffederasiwn Busnesau Bach.

Wrth gwrs, rydym yn parhau i fonitro a sicrhau bod yna ddarpariaeth ar gyfer bylchau mewn cymorth, busnesau newydd, gyrwyr tacsis, tenantiaid llety a rennir ac unig fasnachwyr i enwi dim ond ambell un o'r rhai y mae'r Gronfa Ddewisol yn eu cynnwys. Mae'r Pwyllgor yn iawn i dynnu sylw at y ffaith bod dod o hyd i gydbwysedd rhwng ffactorau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd yn ystyriaeth allweddol ac yn parhau felly.

Rydym yn hapus bod y Gronfa Ddewisol yn cyflawni ei hamcan a nodwn ei bod yn parhau i esblygu, er enghraifft mewn ymateb i'r sector tacsis. Wedi dweud hynny, wrth i'r pandemig esblygu mae angen i'n pecyn wneud yr un peth ac rydym yn derbyn yr angen hefyd i adolygu a diweddarau mewn ymateb i fesurau a materion newydd a godwyd gan randdeiliaid ac yn wir y broses graffu.

DBW CWBLS a CBILS

Buom yn trafod yr heriau hirdymor i Fanc Datblygu Cymru mewn perthynas â chydgrynhoi dyledion a darparu cyfalaf i gleifion, a'i rôl yn helpu busnesau i sefydlogi yn y tymor hwy. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu unrhyw eglurder pellach y gall y Gweinidog ei ddarparu ar yr amserlen ar gyfer pennu cyllid yn y dyfodol i'r Banc Datblygu ar gyfer adfer yn dilyn Covid-19.

Mae'r Gronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru (Cronfa) bresennol a reolir gan Fanc Datblygu Cymru wedi'i hymestyn. Mae'r Gronfa'n yn rhoi i Fanc Datblygu Cymru ei gyllid mwyaf hyblyg, gan gefnogi mathau amrywiol o gytundebau, ecwiti a dyled a heb unrhyw gyfyngiadau daearyddol.

Mae'r Gronfa, sydd wedi bod yn buddsoddi ers 2017, wedi cael ei hymestyn mewn gwerth i £500 miliwn, gan ei galluogi i barhau i fuddsoddi am y 10 mlynedd nesaf. Mae £270 miliwn o gyfalaf craidd atodol yn cael ei ychwanegu at y Gronfa sydd, o'i osod ochr yn ochr â chyfalaf sydd eisoes wedi'i fuddsoddi yn y Gronfa (£97 miliwn), cyfalaf sydd wedi'i ail-fuddsoddi o gronfeydd hanesyddol sydd yn eu cyfnod gwireddu (£103 miliwn) a chronfeydd a fydd yn cael eu hail-gylchu yn ystod y cyfnod buddsoddi ei hun (£30 miliwn) yn creu'r cyfanswm o £500 miliwn.

Bydd yr arian hwn yn sicrhau bod Banc Datblygu Cymru yn gallu parhau i fuddsoddi dros £60 miliwn y flwyddyn mewn benthyciadau busnes cyffredinol ac ecwiti drwy gyfnod y disgwylir y bydd yn gyfnod estynedig o adfer ac addasu economaidd.

Bydd y Gronfa £500 miliwn yn parhau i gynnig buddsoddiadau o rhwng £25,000 a £10 miliwn gyda thelerau buddsoddi hirdymor (15 mlynedd), i fusnesau bach a chanolig a busnesau nad ydynt yn rhai bach a chanolig, sydd â chynigion busnes hyfyw er mwyn sicrhau gweithgarwch economaidd parhaus yng Nghymru.

Mae Banc Datblygu Cymru yn disgwyl i'r gronfa wneud 2,000 a mwy o fuddsoddiadau mewn dros 1800 o fusnesau – yn seiliedig ar gytundeb cyfartalog o tua £250,000. Bydd hyn yn diogelu a/neu'n creu dros 24,000 o swyddi. Gyda throsoledd y sector preifat o 1:1 bydd y buddsoddiad o £500 miliwn yn cynhyrchu cyfanswm buddsoddiad o £1 biliwn i economi Cymru dros y degawd nesaf.

Yn gyffredinol, mae Banc Datblygu Cymru yn disgwyl i'r rhan fwyaf o'r cyllid gael ei ddefnyddio drwy fenthyciadau 5 mlynedd. Fodd bynnag, mae'r Gronfa'n hyblyg a bydd yn cefnogi amrywiaeth eang o anghenion gan gynnwys: micro-fenthyciadau o dan £50,000,

cyfalaf gweithio, benthyciadau 5-15 mlynedd, ac ecwiti yn y cyfnodau cynnar, yn ddiweddarach ac yn ddilynol.

Rydym yn wynebu lefelau uchel o ansicrwydd ar hyn o bryd ac felly mae adolygiad rhwng 12 a 18 mis ac adolygiad canol tymor yn 2024/25 wedi'i gynnwys yn y cynnig, a bryd hynny, bydd targedau ac allbynnau'r dulliau gweithredu'n cael eu diwygio yn ôl yr angen er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn heriol ond yn briodol i'r cyd-destun economaidd sy'n bodoli.

Un her allweddol yn dilyn Covid fydd cydgrynhoi a chyfalaf tymor estynedig. Mae cost cyllid yn aml yn ddryslyd o ran fforddiadwyedd. Mae'n bwysig gallu darparu cyllid dros gyfnod digon hir er mwyn gwneud ad-daliadau dyledion yn fforddiadwy.

Yn yr adolygiad diweddar o Gyfalaf Tymor Estynedig gan Lywodraeth y DU, nodwyd bod 'diffyg cyfalaf tymor estynedig yn rhwystr sylweddol i lwyddiant entrepreneuriaid y DU'. Aeth ymlaen i ddweud, 'Un her fawr i fusnesau sy'n tyfu ac sydd am dyfu'n sylweddol yw'r diffyg "cyfalaf tymor estynedig" sydd ar gael. Mae Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru yn ffynhonnell barod o gyfalaf hirdymor a fydd hyd yn oed yn bwysicach yn y cyfnod adfer ar ôl Covid.

Cymorth yn y dyfodol ar wahanol lefelau rhybudd

Nodwn yr ansicrwydd ariannol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol hon, fel yr amlinellwyd gan y Dirprwy Weinidog, ochr yn ochr â'r angen am gymorth busnes gohiredig i reoli ansicrwydd parhaus. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn croesawu mwy o fanylion gan y Gweinidog os yw'n bosibl, i nodi'r bwriadau o ran polisi ynghylch y math o gymorth y dylai gwahanol fathau o fusnesau ddisgwyl y bydd ar gael ar gyfer pob lefel rhybudd o gyfyngiadau, wrth aros i weld a yw'r hyn sy'n angenrheidiol ar gael.

Mae angen dybryd o hyd am gymorth brys parhaus i fusnesau lletygarwch, hamdden a thwristiaeth gydol misoedd Chwefror a Mawrth 2021 o ystyried yr estyniad i gyfyngiadau Rhybudd Lefel 4 er mwyn ategu cynlluniau eraill Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Bydd £30 miliwn yn rhagor o Gymorth Sector Benodol y Gronfa Cadernid Economaidd yn darparu cymorth ariannol brys yn 2020-21, wedi'i dargedu'n benodol at fusnesau HLT bach, canolig a mwy a busnesau cysylltiedig y gadwyn gyflenwi i dalu costau biliau sy'n ddyledus ym misoedd Chwefror a Mawrth 2021.

Bydd grant yn cael ei ddarparu i fusnesau cymwys yn seiliedig ar £1,500 y swydd i'w diogelu neu gostau gweithredu sefydlog ar gyfer misoedd Chwefror a Mawrth (pa un bynnag yw'r isaf) gyda therfyn uchaf y grant yn cael ei bennu dan Fframwaith Dros Dro Covid-19 (cymorth cronol £690,000).

Rydym yn cydnabod hefyd pa mor bwysig yw adolygiad 12 Mawrth i fusnes. Gyda'r Gwyliau Pasg ar y gweill, mae swyddogion wrthi'n datblygu ychwanegiad pellach at y grantiau ardrethi Annomestig gan ganolbwyntio'n benodol ar ficrofusnesau yn y sector HLT a manwerthwyr mwy i gynllunio pecyn sy'n cyd-fynd ag unrhyw estyniad i gyfyngiadau rhybudd lefel 4 neu lefel 3.

Diogelwch yn y gweithle

Trafodwyd pryderon ynghylch glynu wrth reoliadau diogelwch yn y gweithle â'r Dirprwy Weinidog. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad i rannu gohebiaeth rhwng y Prif Weinidog a'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Drafnidiaeth ar y

sefyllfa ym mhencadlys yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA), ac i gael diweddariadau am unrhyw ddatblygiadau pellach.

Amgaeaf 2 lythyr gan y Prif Weinidog.

Roeddem yn falch o nodi bod lechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi ar 27 Chwefror na fu unrhyw achosion cysylltiedig ymysg staff canolfannau galwadau yn ystod y 28 diwrnod diwethaf. Bydd yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Abertawe, Bwrdd lechyd Prifysgol Bae Abertawe a'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch, ac yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn helpu'r DVLA i reoli'r gweithle.

Rydym yn mabwysiadu dull Partneriaeth Gymdeithasol yng Nghymru ac mae gennym y Fforwm lechyd a Diogelwch hefyd.

Cawsom nifer o bobl yn mynegi pryderon am anghysondebau yn safon mesurau glanhau a hylendid, ansawdd yr awyru a'r ffaith nad oedd cadw pellter cymdeithasol digonol ar y grisiau ac ardaloedd eraill gyda 'thraffig' uchel.

Mae'n hanfodol bod Llywodraeth y DU a'i hasiantaethau yn gosod yr esiampyl gywir wrth gynnal eu gweithrediadau ac wrth ddiogelu eu gweithlu, eu cymuned leol a Chymru.

Yn gywir



Ken Skates AS

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru



Lee Waters AS

Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth



Baroness Vere of Norbiton
Parliamentary Under Secretary of State
Department for Transport
Great Minister House
33 Horseferry Road
London
SW1P 4DR

22 December 2020

Dear Baroness Vere,

I am writing about the declaration of a Coronavirus outbreak at the DVLA contact centre in Swansea on 21 December.

We have been concerned about transmission risks at the DVLA site for several months and since September, a team including Public Health Wales, Swansea Council, the Health and Safety Executive and the local Health Board, has been mobilised to assist the DVLA with managing the impact of Covid-19 in the workplace.

The last three weeks has seen a further increase in confirmed cases of COVID-19 amongst workers at the site and we are continuing to receive concerning reports about workplace measures and practices at the site.

As the UK Minister responsible for the DVLA's operations, I ask that you ensure the DVLA contact centre in Swansea is operating safely and in compliance with the Coronavirus Regulations and Guidance in Wales. In particular, I am seeking your assurance that:

- A COVID-19 risk assessment has been undertaken in discussion with the workforce and/or their recognised trade union and that the results have been shared with the workforce.
- Workers are being supported to work from home where this is possible and that workers are not being required or placed under pressure to attend the site if there is not a clearly demonstrated business need for them to do so.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 12
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- All reasonable measures are being undertaken to ensure that 2metre physical distancing is maintained at the site and that other reasonable measures are being taken to reduce the risk of exposure to COVID-19.

It is imperative that Government, its agencies and public authorities set the right example in the conduct of its operations and I ask that you ensure the DVLA is doing all it can to keep its workforce, local community and Wales safe.

I look forward to your response.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD



Baroness Vere of Norbiton
Parliamentary Under Secretary of State
Department for Transport
Great Minister House
33 Horseferry Road
London
SW1P 4DR

baroness.vere@dft.gov.uk

12 January 2021

Dear Baroness Vere,

I am writing in response to your letter of 23 December about the approach of the DVLA to coronavirus security in the workplace.

I appreciate the information you provided on the measures that you understand the DVLA is taking, however I am continuing to receive a number of representations from the PCS trade union and indeed from individual workers which provide a contrasting view.

The concerns for staff welfare are numerous and varied, but a consistent view is emerging that staff are being unnecessarily and avoidably exposed to risk and that the actions across the DVLA estate in Swansea are not sufficient to keep the workplace safe.

In broad terms, three common themes have been surfaced through the reports that I have received:

- (i) The proportion of staff expected to physically attend the workplace in relation to those working from home.
- (ii) Transportation issues and related Covid transmission risks.
- (iii) The efficacy and rigour of the DVLA's approach to risk assessment and reasonable measures.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 14
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

PCS has indicated to me that the proportion of DVLA staff being required to physically attend the workplace is high in a context where those who can work from home, should work from home. Out of a total staff complement of 3,500 workers in Wales across the Contact Centre, Main Site and Ty-Felin site, more than half (around 1,800 workers) are being expected to physically attend work as opposed to work from home. By way of comparison, I am advised that just 250 workers were physically attending the three sites listed above during the early phase of the pandemic.

I understand local management have proposed an approach which would have the effect of reducing the number of staff attending the workplace at any one time (though not an overall reduction of the total number of staff expected to attend the workplace). I appreciate these proposals are being considered by the trade union and could lead to a position where no more than 600 staff are in attendance across the three sites at any one time, but that this would be achieved at the expense of longer working hours and regular weekend working. Given the seriousness of the situation and the transmissibility of the new variant, I suggest there is a strong rationale for a broadly similar approach to that taken during the early period of the pandemic.

The volume of staff expected to physically attend the workplace also presents a risk in the context of transportation. I understand there are severe capacity issues on the staff bus service and this lack of capacity is leaving workers with little option other than to take alternative options, some of which carry an increased risk of infection and transmission.

Finally, I have received numerous concerns about inconsistencies with the standard of cleaning and hygiene measures, the quality of the ventilation and insufficient social distancing in stairwells and other high 'traffic' areas. I am keen to stress the importance of revisiting the risk assessment in the light of the new variant on the virus and that it fully takes into account the circumstances at each site, involves the trade unions and is shared with the workforce.

The pandemic has reached a significant point. We continue to have very high levels of coronavirus circulating in our communities and the NHS is under sustained pressure. The new variant of the virus is an added and unwelcome threat that has the potential to spread wherever people meet. In this context, I urge you to reconsider the approach the DVLA is taking and ensure that the health and safety of the workforce is made the overriding priority through working with the trade unions and the workforce to help keep Wales safe.

I am copying this letter to the Julie Lennard (Chief Executive Officer, DVLA), Andrew Lloyd (PCS National Officer) and Tonia Antoniazzi MP.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD

Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon